

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 84

Key Language

Expressions
Different meanings of 'lladd'
Comparatives

New Words

Rhag dy gywilydd	you should be ashamed of yourself
Cylchgrawn	magazine
Cylchgronau	magazines
Haerllug	cheeky; impudent
Cyhuddo	to accuse
Bygythiad(-au)	threat (s)
Does bosib?	Surely? (SW)
Cywilydd	shame; embarrassment
dychryn	to frighten
cysgod (-ion)	shadow (s)
rhei braw	to frighten
dychymyg	imagination
cwpla	to finish; complete
ar goll	lost
llosgi	to burn
cydio	to grab
trin	to treat
diogi	to be lazy
cyd-ddigwyddiad	coincidence
cwningen	rabbit
cerddoriaeth	music
cenfigennus	jealous
sylweddoli	to realise
llai	less
achos llys	court case
gyrru	to drive
tynnu fy nghoes	to pull my leg
agwedd	attitude

Brian's at the end of his tether and becomes very aggressive with Jac who's refused to let him into the house.

Brian - Agor y drws 'ma! Agor o!

Jac - Na. Wnaf i ddim agor y drws nes dy fod ti'n pwylllo...

Brian - Dw i'n mynd i roi un cynnig arall i chdi...

Jac - Does dim pwynt i ti drïo codi ofn arnaf i.

Brian - Ofn! Dwyt ti ddim yn gwbod ystyr y gair eto boi!

Jac - Mae Agnes i ffwrdd ar gwrs. So get lost.

Brian - Paid ti â meiddio dweud wrthyf i beth i'w wneud! Hwn ydy fy nhŷ i! Fy nhŷ i! Does dim hawl gennyf ti fy nghau i allan o nhŷ fy hun!

Brian ends up throwing a brick through the glass in the front door. Luckily no one's injured but Brian's shed plenty of blood as a result of his reckless behaviour.

Main Grammatical Points

Agnes storms into the garage to speak with Brian after he threw a brick through the glass door of her house. Brian's at the back of the shop when she first arrives and just as he appears, Chris says 'Ar y gair' which literally means 'on the word' but could be translated as 'speak of the devil' – 'ar y gair'.

Ble mae Hywel? Dydw i ddim wedi ei weld e ers talwm.
Where's Hywel? I haven't seen him for ages.

Dyma fe ar y gair!
Here he is! Speak of the devil!

Another expression this week is 'dweud fy nweud' – literally to say my say – which really means to get something of your chest or to state your opinion.

Mae hi wedi dweud ei dweud
She's had her say

Mae Dafydd wedi dweud ei ddweud
Dafydd has spoken frankly

Dw i eisiau dweud fy nweud
I'd like to get something off my chest.

Agnes has had enough when Brian accuses her of causing him so much pain and turns the tables on him. She reminds him of his numerous affairs and of his relationship with Wendy and his illegitimate daughter Vicky. Brian is lost for words after her tirade and she asks him 'y gwir sy'n lladd, ife?' You would translate this as 'the truth hurts does it'? But literally it means 'the truth kills does it'? 'Lladd' is often used in other contexts where it doesn't mean 'to kill'. In the summer, you often see signs in the countryside 'lladd gwair'. This doesn't mean 'killing' grass of course but 'cutting or mowing grass'. 'Lladd poen' means 'to relieve or deaden pain' and 'lladd ar rywun' means 'to criticise someone'.

We looked at comparatives recently, but remember that the comparative of 'bach' (little or small) is irregular. So that small, smaller, smallest is:

Bach llai lleiaf

So when Brian says he doesn't have change for Michelle, he says, 'does gen i ddim llai na deg punt' – I don't have anything less than £10.

We hear lleiaf (smallest) on a regular basis in the expression 'o leiaf' – at least.

O leiaf mae'r tywydd yn braf.
At least the weather's fine.

Mae e o leiaf ugain mlynedd yn hŷn na hi!
He's at least 20 years older than her!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 250

Jenny finally returns home after a long night shift at the hospital, but is scared out of her wits as she steps out of the car...

Agnes is furious at Brian for having thrown a brick through her front door during a fight with Jac. She wants their relationship sorted once and for all but Brian's not going to make it easy for her.

Geirfa

Rhag dy gywilydd	you should be ashamed of yourself
Cylchgrawn	magazine
Cylchgronau	magazines
Haerllug	cheeky; impudent
Cyhuddo	to accuse
Bygythiad(-au)	threat (s)
Does bosib?	Surely? (SW)
Cywilydd	shame; embarrassment
dychryn	to frighten
cysgod (-ion)	shadow (s)
rhoi braw	to frighten
dychymyg	imagination
cwpla	to finish; complete

Golygfa 1

Agnes - Ody Brian yma?

Chris - Ody. Af fi i i'w nôl e nawr. Mae e yn y workshop...Pwy ddywedaf i sydd moyn gair?

Agnes - Ei gyn-wraig e.

Chris - Right. Message received loud and clear... I'll go and get ... O, Brian... dyma ti ...ar y gair. Mae...

Brian - Agnes...

Agnes - Rhag dy gywilydd di, Brian!

Brian - Wyt ti eisiau dod drwodd i'r cefn i siarad?

Agnes - Nag ydw. Dw i am siarad fan hyn...A siarad nawr!

Brian - O'r gorau. Chris – dos i roi trefn ar y cylchgronau sydd newydd gyrraedd plis...Allan yn y cefn...

Chris - O.K.

Agnes - Rwyd ti'n gwybod pam dw i wedi galw yma.

Brian - Dw i'n falch iawn dy fod ti wedi galw.

Agnes - Doeddwn i ddim moyn galw. Ond doedd dim dewis gyda fi. Ddim ar ôl i ti fwrw bricsen trwy wydr y drws ffrynt. Rwyd ti'n lwcus wnaeth Jac ddim ffonio'r heddlu.

Brian - Pam wnaeth o ddim galw'r heddlu?

Agnes - Brian! Paid â bod mor haerllug!

Brian - Haerllug? Fi? Os ydy rhywun yn haerllug, Jac Whelan ydy hwnnw!

Agnes - Na, ti sy'n haerllug.

Brian - Paid â fy nghyhuddo i o fod yn haerllug.

Agnes - Wel, dw i yn dy gyhuddo di. Trio gwthio dy ffordd i mewn i'r tŷ. Gwneud bygthiadau dwl. Wyt ti'n gwobod beth, Brian?

Brian - Beth?

Agnes - Mae hi'n amser i ti dyfu lan.

Brian - Dwyd ti ddim yn deall gymaint o boen rwyd ti wedi achosi i mi?

Agnes - Beth am 'bytu'r holl boen wyt ti wedi achosi i fi yn y gorffennol? Dy holl 'affairs' di? Wendy Keating? Wyt ti'n ei chofio hi? A'r babi? Victoria? Rwyd ti'n cofio am 'bytu hi, does bosib? Dy fabi di.

Dy ferch di gyda'r fenyw Keating ofnadwy yna! Doedd dim ots gyda ti faint o gywilydd wnest ti ei

achosi i fi. Rwyd ti'n dawel iawn. Beth sydd? Y gwir sy'n lladd, ife?

Brian - Rwyd ti'n fy nghasáu fi...yn dwyt?

Agnes - Y cyfan sydd rhaid i ti a fi ei wneud nawr yw eistedd i lawr a sortio pethau mas. Y tŷ. Y plant. A gwneud hyn mor ddi-boen â phosibl.

Brian - Rwyd ti'n berson mor oer Agnes. Rwyd ti'n siarad heb unrhyw emosiwn o gwbl...fel tasai hyn yn berffaith naturiol.

Agnes - Sa i'n berson oer. Y cyfan ddywedais i oedd fy mod i moyn i hyn fod mor ddi-boen â phosibl.

Brian - "Er mwyn y plant". Go on, dyweda fo! Wel, dyna ni ynte. Does yna ddim byd mwy i'w ddweud, nagoes?

Agnes - Gad i ni wneud hyn yn glou...

Brian - lawn cariad. Os wyt ti'n dweud...

Agnes - Gwd.

Brian - Ac Agnes? Un peth arall...Cyn i chdi fynd...Dw i eisiau i'r plant ddod i fyw ataf i. Dw i ddim eisiau i Jac fod yn dad i Rhodri a Beca. Wyt ti'n deall?

Agnes - Gawn ni weld am 'bytu hynny, ife?

Golygfa 2

Chris - Hiya...

Jenny - Pwy sydd yna?

Chris - Paid â dychryn. Dim ond fi sydd yma. Your keen machine, aye...

Jenny - O, Chris, ti sydd yna. Doeddwn i ddim yn gallu dy weld ti'n iawn yn y cysgodion yna.

Chris - Gobeitho wnes i ddim rhoi braw i ti...

Jenny - Mae yna straeon wedi bod yn y papurau lleol yn does?

Chris - Straeon?

Jenny - Dwyd ti ddim wedi clywed?...Mae yna ddy yn y pentref yn torri i mewn i dai pobol tra maen nhw'n cysgu...Mae o'n dwyn eu pethau nhw...Ond mae'r heddlu yn meddwl fedar o fynd ymhellach...

Chris - Sut?

Jenny - Defnyddia dy ddychymyg.

Chris - Ie...O.K... Newydd gwplu yn y garej ydw i.

Jenny - Rwyd ti'n gweithio yn hwyr heno...

Chris - Rwyd ti hefyd. Ac roeddwn i'n meddwl...wel, a fyddet ti'n hoffi dod gyda fi am ddrinc clou cyn i'r pybs gau?

Jenny - Dwn i ddim amdanat ti, ond dw i wedi cael diwrnod hir...A dw i wedi blino'n lân...

Chris - Un drinc. I'm a keen machine, cofio?

Jenny - Diolch, ond ddim heno.

Chris - Siwr nawr? This is your last chance.

Jenny - Rhywbryd eto...Nos da. Nos da, Chris. Beth sydd? Pam wyt ti'n sefyll yn fan yna?

Chris - Dim. I'd better get moving...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 251

Chris and Brian share stories about their love lives, while Jenny tells Agnes about her disastrous date with Chris. She tells her that he's started to give her the creeps, so Agnes gives her some sound advice as to how to deal with him.

Geirfa

ar goll	lost
llosgi	to burn
cydio	to grab
trin	to treat
diogi	to be lazy
cyd-ddigwyddiad	coincidence
cwningen	rabbit
cerddoriaeth	music
cenfigennus	jealous
sylweddoli	to realise

Golygfa 1

Agnes - ...dim record? Beth wyt ti'n feddwl? Dim record?

Jenny - Yn union beth dw i newydd ei ddweud. Dim record.

Agnes - Sori. Dw i ar goll nawr. Dw i ddim yn siwr os ydw i wedi deall yn iawn. Gwed e eto.

Jenny - Rwyd ti wedi cyfarfod y boi...Rwyd ti'n ei gofio fo, yn dwyt ti? Rwyd ti yn gwybod am bwy dw i'n siarad?

Agnes - Ydw, ydw...Christopher Roberts...

Jenny - Dyna ti. Wel, roedd o wedi gofyn a gofyn a... wel... es i allan ar ddêd efo fo. Ond am noson ddiiflas! Roedd o'n ofnadwy. Doedd ganddo fo na fi ddim byd i'w ddweud wrth ein gilydd. Rydyn ni'n bobl hollol wahanol...Mae o fel rhyw Jac-yn-y-bocs. Mae o'n popio i fyny ym mhob man...Neithiwr, er enghraifft, roeddwn i newydd barcio'r car o flaen y fflat...A pwy wnaeth gerdded allan o'r cysgodion?

Agnes - Chris Roberts?

Jenny - Ond ddim dyna'r peth mwyaf rhyfedd...

Agnes - Beth ynte?

Jenny - Wythnos diwethaf daeth o o hyd i mi yn y cantîn...

Agnes - Cantîn y 'sbyty?

Jenny - Ie. Roedd o wedi llosgi ei law, meddai fo. Wedi cydio mewn darn o fetal poeth yn y garej...Roedd ganddo fo 'fandej' mawr gwyn am ei law...Ond neithiwr roedd ei law o yn hollol iach...

Agnes - Ie? Beth wyt ti'n trio ei ddweud?

Jenny - Bore yma...Es i draw i casualty a holi'r staff yna...Ac wyt ti'n gwybod beth?

Agnes - Doedd neb wedi trin llaw Chris Roberts o gwbl?

Jenny - Yn union... Wyt ti'n gweld pam dw i'n poeni?

Agnes - Ydy e'n niwsans?

Jenny - Ydy. A bob tro dw i yn ei gwmni fo...Neu bob tro dw i'n ei weld o...Neu siarad hefo fo...Dw i jest yn cael y vibes drwg yma...

Agnes - Os wyt ti'n cael vibes drwg am 'bytu'r boi...Siarad yn hollol straight gyda fe. Dyna beth wnes i gyda Brian. Wnes i fecso lot cyn gwneud wrth gwrs...Ond ar ôl i fi ddweud fy nweud roeddwn i'n teimlo lot, lot yn well.

Jenny - Ie. Cyngor da. Dyna beth fydd rhaid i mi ei wneud. Rwyd ti'n iawn...

Agnes - Dere am ddisglaid i fy swyddfa fi.

Jenny - Ie. Bod yn benderfynol. Rwyd ti'n iawn, Agnes. Dyna'r ateb. Dweud fy mod i ddim eisiau dim byd i'w wneud hefo fo byth eto. A gofyn i'r boi Chris Roberts yma gadw allan o fy mywyd i. Dyna beth wnaf i, heb os nag onibai...

Golygfa 2

Chris - ...a'r peth yw...You know, Brian...I feddwl bod Jenny a fi yn ddau...wel...yn ddau berson mor wahanol, mae'n really amazing how much we have in common.

Brian - Fel beth felly?
 Chris - Neithiwr...For example...
 Brian - Er enghraifft...
 Chris - Er enghraifft...
 Brian - Dylet ti ddim defnyddio cymaint o Saesneg, wyt ti'n gwybod. Mae gen ti Gymraeg da...
 Chris - Get off...!
 Brian - Diogi ydy troi at y Saesneg fel wyt ti'n ei wneud. Os dwyt ti ddim yn gwybod y gair: gofyn i mi...
 Chris - O.K., man – deal...
 Brian - Sori, dw i wedi torri ar draws... Roeddech chdi wrthi yn dweud am Jenny a chdi..
 Chris - Yeah! Jenny a fi! Beth yw coincidence?
 Brian - Cyd-ddigwyddiad.
 Chris - Cyd-ddigwyddiad, ie. Roeddwn i newydd adael y garej...Cerdded gartref...Happy as a bunny...Hapus fel..
 Brian - Cwningen.
 Chris - Dyna ti. Cwningen. Hapus fel cwningen. A'r peth nesaf...Pwy ydw i'n gweld yn dod mas o'i char...?
 Brian - Jenny?
 Chris - Spot on! Chat, chat, chat. A'r peth nesaf...Wnaeth hi...Beth yw invite?
 Brian - Gwahodd.
 Chris - Gwahodd fi lan i'w fflat hi. Goleadau on. Low lighting, wyt ti'n gwobod. Music...
 Brian - Cerddoriaeth...
 Chris - Cerddoriaeth. Don't break my flow now..."Coffi, Chris?" meddai hi. "Dw i moyn rhywbeth cryfach, Jen," meddaf fi. Wisgi? Armagnac? Gin? Fodca? The works. "Wisgi a ginger, plis." "Wisgi a ginger ar ei ffordd," meddai hi. Roedd hi'n edrych mor lovely. Honest, Brian. A vision of pure beauty standing right in front of me. I was so blown away, man....
 Brian - Ond i dorri stori hir yn fyr...?
 Chris - Yeah. Trwy'r nos. Mind-blowing.
 Brian - Dw i mor genfigennus rwan. Mae dy glywed chdi yn siarad fel yna jest yn gwneud i fi sylweddoli cymaint dw i wedi'i gollu...
 Chris - Tough call, man...
 Brian - Ie. Agnes a fi. Roedden ni mor berffaith ar y dechrau...ac am flynyddoedd i ddweud y gwir...
 Chris - Beth am 'bytu – what's her- the Rhondda woman's name?
 Brian - Wendy. Mae Wendy yn hen hanes.
 Chris - Yeah, but she's not gone far – what's gonna happen when she comes back to Brynaber?
 Brian - Agnes dw i eisiau a neb arall.
 Chris - Ond beth am y Jac yma? How are gonna get rid of him?
 Brian - Dim syniad. Dw i'n meddwl am hynny trwy'r adeg...
 Chris - Mmmmm.
 Brian - Mmmm - beth? Oes gen ti unrhyw syniadau?
 Chris - Wyt ti o ddifrif?
 Brian - Wel, dw i erioed wedi bod yn fwy o ddifrif yn fy mywyd.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 252

In another 'coincidence' Jenny's caught unawares when she bumps into Chris outside her house again. Will she take Agnes' advice and tell him how she really feels about him?

Brian's feeling very sorry for himself and goes to drown his sorrows at the Yacht Club. Michelle's full of sympathy and gets quite flirty with him.

Geirfa

llai	less
achos llys	court case
gyrru	to drive
tynnu fy nghoes	to pull my leg
agwedd	attitude

Golygfa 1

Michelle - Pint of lager.....Dwy bunt chwedeg plis.

Brian - Sori, ond does gen i ddim byd llai na deg punt...

Michelle - No problem.

Brian - Wyt ti wedi gweld Arwyn heddiw?

Michelle - Can't say I have. I just told you that...Dwyt ti ddim yn cofio?

Brian - Sori. Mae fy meddwl i'n bell i ffwrdd.

Michelle - My heart goes out to you. Arwyn's told me all about that Jac Whelan and what he's done...

Brian - Ac roeddwn i'n meddwl ein bod ni'n dau yn ffrindia... Na... Mae Jac a fi wedi sefyll mewn achos llys hefo'n gilydd...

Michelle - Up for what? Go on. Spill the beans. I'm genuinely interested. You interest me a lot, Brian.

Rwyt ti wastad wedi. Pan wnes i dy weld ti am y tro cyntaf... I liked your smile...

Brian - Wel, handling stolen goods. Ceir, wyt ti'n gwybod. Ond ddaeth Jac a fi off...

Michelle - Pity you hadn't turned evidence against him. He'd have gone down. Done a stretch. And you wouldn't have had all this hassle...

Brian - Gwranda, ydy o'n ormod i mi ofyn i chdi siarad Cymraeg trwy'r amser plis? Mae gen i foi sy'n gweithio i mi. A mae o yr un fath â chdi. Dy ex di. Chris. Hanner Cymraeg, hanner Saesneg. Mae o'n fy ngyrru fi'n nyts...

Michelle - Dw i'n insulted.

Brian - Wel, dydy o'n ddim byd personol...

Michelle - Speaking in another language – a second language – isn't that easy. It's easy for you, you were born into it. But for me, I've really got to struggle to search for the words sometimes...I dunno...I'm trying my best. Just be patient...

Brian - Sori. I'm not having a go at you personally...I dunno...I just feel so depressed and so low at the moment, just about everything gets me down. Sorry, Michelle. Your Welsh is improving every day – you should be proud of yourself. Just ignore me.

Michelle - Wyt ti'n gweld...You've slipped into English now...

Brian - Wyt ti'n gwybod beth? Mae fy mywyd i'n llanast...

Michelle - Tell you what...After I finish my shift tonight...Do you fancy going to the Pier? Late night disco on a Thursday? Beth wyt ti'n ei ddweud?

Brian - Pryd wyt ti'n gorffen yma?

Michelle - Am hanner awr wedi unarddeg.

Brian - O.K. Pam lai?

Golygfa 2

Jenny - ...pwy sydd yna?

Chris - Hiya. Dw i ddim yn credu hyn...!

Jenny - Beth wyt ti'n ei wneud yma eto?

Chris - Cyd-ddigwyddiad.

Jenny - Rwan wyt ti'n gorffen gweithio?

Chris - Ie. Brian Rees – he's a cruel slave driver.
Hei – wyt ti'n clywed y sŵn yna?
Jenny - Clywed pa sŵn?
Chris - Hisst! Gwranda...
Jenny - O, ie...Disgo'r Pier...
Chris - Wyt ti moyn mynd draw?
Jenny - Rwan? Wyt ti'n tynnu fy nghoes i?
Chris - Dw i'n keen machine, Jenny...A dw i'n siwr dy fod ti'n dawnsio'n brilliant.
Jenny - Ddim heno.
Chris - Plis?
Jenny - Chris – wnei di symud allan o fy ffordd i, plis?
Chris - Plis, plis – pretty please!
Jenny - Dw i wedi blino'n lân. Dw i wedi cael diwrnod hir.
Chris - You'd love a bop! Dere! Plis!
Jenny - Gwranda...Gwranda rwan...Mae gen i rywbeth i'w ddweud wrthyt ti.
Chris - What? You really fancy the pants off me!
Jenny - Na...
Chris - You think I'm drop dead gorgeous...?
Jenny - Na.
Chris - Rwy'ti'n gwenu nawr!
Jenny - Dw i ddim yn gwenu. Dw i o ddifrif... Rhaid i ti wrando'n ofalus iawn...OK, Chris?
Chris - OK.
Jenny - Dw i ddim eisiau dy weld di eto. Byth eto. O.K.?
Sori. Does yna ddim ffordd hawdd o ddweud hyn. Ond dw i ddim yn dy ffansio di. Dw i ddim hyd yn oed yn meddwl amdanat ti – o gwbl. A dweud y gwir, does dim byd – a bydd dim byd rhyngon ni.
Byth.
Chris - You tease fair maiden!
Jenny - Dwyt ti ddim yn gwranddo! O.K. Sut arall fedraf i ei ddweud o? Chris, i fod yn onest, dw i ddim hyd yn oed yn dy hoffi di. Ac wyt ti'n gwybod beth?
Chris - Beth?
Jenny - Rwy'ti'n rhoi'r creeps i fi.
Chris - Creeps? What are you on about?
Jenny - Dy ffordd di...Dy agwedd di...Dw i wedi dweud fy nweud...Rwan nos da.
Chris - Nos da, Jen. Sleep tight. I'll see you in the morning.
Jenny - Na, na. Cadw draw! Jest cadw draw – wyt ti'n deall?
Chris - Rwy'ti mor dead drop gorgeous o lovely...*(yn duo yn sydyn iawn rwan ac yn isel)* A dw i'n dy garu di yn fwy nag erioed...you mad, mad desperate bitch.

Synopsis

Jenny's found out that there's no record at the hospital of Chris having been treated for a burn. She's starting to get worried and confides in Agnes about her concerns.

Test yourself

1. You've just got a lot of things off your chest. Which of the following expressions is the most appropriate in this context?
 - a) ar y gair
 - b) heb os nag onibai
 - c) dweud fy nweud**
2. Lladd has number of meanings. Which of the following can it not mean?
 - a) deaden
 - b) bully**
 - c) mow
3. "Rhoi braw" is a synonym for:
 - a) dychryn (to frighten)**
 - b) profi (to test; to experience)
 - c) brathu (to bite)
4. "More" is to "mwyaf" as "small" is to...
 - a) bach
 - b) llai
 - c) lleiaf**
5. Which of these literal translations from English is the only expression that works in Welsh?
 - a) tynnu coes**
 - b) bwrw cathod a chŵn
 - c) wy drwg
6. The expression "Gobaith mul" can be translated as:
 - a) mull it over
 - b) fat chance**
 - c) live in hope